



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Adolygiad o Lifogydd Arfordirol Cymru Cynllun Cyflawni ar gyfer Argymhellion Rhan 2

Paratowyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru
ar gyfer Carl Sargeant AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol

Ionawr 2015

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol



Bae Colwyn, Conwy (Rhagfyr 2013)



Y Rhyl, Sir Ddinbych (Rhagfyr 2013)



Bae Cinmel, Conwy (Rhagfyr 2013)



Aberystwyth, Ceredigion (Ionawr 2014)

Cydnabyddiaeth

Mae'r Cynllun Cyflawni hwn wedi cael ei goladu a'i gydlynu gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â llawer o gydweithwyr ar draws Cymru, yn arbennig â'r Awdurdodau Lleol arfordirol a Llywodraeth Cymru.

Hoffem gydnabod y cyfraniad hwn a diolch i'n cydweithwyr am eu cefnogaeth barhaus i'r fenter hon tra maent hefyd yn dal i ddarparu gweithgareddau a gwasanaethau i reoli'r risg i gymunedau Cymru.



Trafodaethau Gweithdy'r Cynllun Cyflawni 31ain Gorffennaf 2014



Treaddur, Ynys Môn (Rhagfyr 2013)



Parrog Trefdraeth, Sir Benfro (Ionawr 2014)

Crynodeb Gweithredol

Ar ôl y llifogydd ar Arfordir Gogledd Cymru ar 5^{ed} Rhagfyr 2013 a'r stormydd arfordirol ehangach ddechrau Ionawr 2014, cwblhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru, yn gweithio gyda phartneriaid o amgylch Cymru, Adolygiad dau gam fel y'i cyfarwyddwyd gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol. Daeth yr Adolygiad hwn i ben drwy nodi 47 o Argymhellion unigol (Argymhellion Cam 2).

Mae'r Cynllun Cyflawni hwn yn nodi sut y gellir bwrw ymlaen â'r Argymhellion hyn ac mae'n ystyried:

- Sut mae modd symud yr Argymhellion ymlaen (methodoleg)
- Gan bwy (pa sefydliadau a phartneriaid y mae angen eu cynnwys)
- I gyflawni beth (gwelliant parhaus ynteu ganlyniad penodol)
- Amserlenni dangosol.

Caiff y gofynion hyn eu hystyried yng nghyd-destun cyffredinol adnoddau cenedlaethol, capasiti a'r angen i flaenoriaethu. Mae'r Cynllun Cyflawni hwn yn tynnu Argymhellion Cam 2 ynghyd, yn eu hystyried gyda'i gilydd, a thrwy hynny'n ymdrin yn strategol â chynllunio, blaenoriaethu, rhaglenni a chyflawni.

Mae'r Argymhellion yn cynnwys gweithgareddau y mae modd eu cwblhau a'u cyflawni'n weddol gyflym, ynghyd ag eraill, fel ymaddasu i risg gynyddol, a fydd yn digwydd dros amserlenni llawer hirach.

Mae'r gwasanaeth cyfredol i reoli perygl llifogydd yng Nghymru yn amlweddog ac mae rhannau ohono'n gymhleth. Er i'r Awdurdodau Rheoli Risg drwyddynt draw berfformio'n dda yn ystod stormydd gaeaf 2013/14, mae sialensiau a chyfleoedd ar draws pob agwedd o'r gwasanaeth ac mae angen ymateb cyfunol, a hynny dros gyfnod o amser, i alluogi Cymru i wrthsefyll llifogydd arfordirol yn well. Nid oes ateb syml na chyflym. Mae'r sialensiau a'r chyfleoedd hyn yn cael eu hadlewyrchu yng nghwmpas a graddfa 47 Argymhelliad Cam 2.

Mae'r Argymhellion yn adlewyrchiad cadarnhaol o uchelgais a dyhead Llywodraeth Cymru a'r partneriaid rheoli risg arfordirol yng Nghymru. Maent yn nodi fframwaith cyffredin o weithgareddau ymarferol a fydd, dros amser, yn gwneud cymunedau y mae perygl iddynt wynebu llifogydd arfordirol a/neu erydu arfordirol yn gryfach i wrthsefyll hynny.

Ers stormydd gaeaf 2013/14 mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio i ddarparu dros £10 miliwn i Awdurdodau Lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru i ymgymryd â gwaith atgyweirio ac i gydnerthu cymunedau arfordirol o gwmpas y wlad i wrthsefyll llifogydd.

Yn ogystal â'r flaenoriaeth a roddwyd i atgyweirio ac adfer amddiffynfeydd arfordirol, mae cynnydd nodedig wedi cael ei wneud yn barod ar rai Argymhellion unigol. O'r 47 Argymhelliad Cam 2:

- mae 5 eisoes wedi'u cyflawni
- mae 35 ar waith (a gwnaed cynnydd sylweddol ers y gaeaf diwethaf)
- ni chychwynwyd eto ar 7

Gellir rhannu'r 47 Argymhelliad yn fras i ddau fath:

- Gweithgareddau '*Gorchwyl a Gorffen*' am gyfnod penodedig, fel arfer i nodi a gwerthuso opsiynau er mwyn gwella'r ffyrdd o weithio yn y dyfodol.
- '*Gwelliant Parhaus*' drwy esblygiad y tasgau gweithredol arferol sy'n cael eu cyflawni gan Awdurdodau Rheoli Risg.

Mae cyflawni pob un o'r 47 Argymhelliad yn gryn lawer o waith. Bydd angen rheoli a blaenoriaethu hynny o fewn yr adnoddau ariannol sydd ar gael, gan ddefnyddio'r arbenigedd a'r capasiti cyfun ar draws Awdurdodau Rheoli Risg Cymru yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol.

Rhagwelir mai'r ffordd fwyaf tebygol o gynhyrchu adnoddau ychwanegol ar gyfer yr Argymhellion unigol hyn fydd drwy ailflaenoriaethu adnoddau presennol, boed hynny'n bobl, arian neu'r naill a'r llall. Bydd rhyddhau adnoddau drwy ailflaenoriaethu gwaith yn effeithio'n anochel ar flaenoriaethau eraill, a bydd rhaid i'r rheini stopio neu arafu.

Credir mai'r opsiwn mwyaf effeithlon ac effeithiol er mwyn symud ymlaen yw pecynnu'r *Argymhellion Gorchwyl a Gorffen* fel sy'n briodol yn gyfres o 10 Prosiect. Byddai'r pecynnu ar sail materion technegol tebyg. Bydd angen Rheolwr Prosiect dros dro ar bob prosiect. Byddai'r 10 prosiect hyn gyda'i gilydd yn cael eu cyd-drefnu gan Reolwr Rhaglen yn Cyfoeth Naturiol Cymru.

Gellir ymgorffori elfennau o lawer o'r *Argymhellion Gwelliant Parhaus* yn y Prosiectau *Gorchwyl a Gorffen* ehangach, felly bydd modd ystyried cwestiynau ynglŷn ag adnoddau ychwanegol ac ailflaenoriaethu yn y cyd-destun ehangach.

Mae'r 10 Prosiect a'u thema dechnegol fras wedi'u rhestru isod:

- Prosiect 1 – Rhagolygon Llifogydd a Dylunio Arfordirol
- Prosiect 2 – Rhybuddion a Rhagolygon Llifogydd
- Prosiect 3 – Cydnerthu Cymunedau
- Prosiect 4 – Ymateb Gweithredol
- Prosiect 5 – Amddiffynfeydd Arfordirol
- Prosiect 6 – Set Ddata Genedlaethol Amddiffynfeydd Arfordirol ac Archwiliadau

Prosiect 7 – Archwiliad Sgiliau a Chapasiti a Rolau a Chyfrifoldebau
Prosiect 8 – Adolygu'r Grwpiau Arfordirol
Prosiect 9 – Ymaddasu Arfordirol
Prosiect 10 – Gwytnwch y Seilwaith

Nododd Adroddiad Cam 2 6 Maes Blaenoriaeth lle gellir gwneud gwelliannau er mwyn darparu gwasanaeth rheoli llifogydd ac erydu arfordirol gwytnach. Bydd y 10 Prosiect arfaethedig yn cyfrannu'n sylweddol at y Meysydd Blaenoriaeth hyn fel sy'n cael ei ddangos isod:

Maes Blaenoriaeth

Mwy o gymorth i gymunedau i'w helpu i ddod yn fwy hunangynhaliol a chydnerth

Prosiect 1 – Rhagolygon Llifogydd a Dylunio Arfordirol
Prosiect 2 – Rhybuddion a Rhagolygon Llifogydd
Prosiect 3 – Cydnerthu Cymunedau
Prosiect 4 – Ymateb Gweithredol

Maes Blaenoriaeth

Gwell gwybodaeth am amddiffynfeydd rhag llifogydd arfordirol a systemau i reoli erydu

Prosiect 5 – Amddiffynfeydd Arfordirol
Prosiect 6 – Set Ddata Genedlaethol Amddiffynfeydd Arfordirol ac Archwiliadau

Meysydd Blaenoriaeth

Mwy o eglurdeb am rolau a chyfrifoldebau, ac asesu sgiliau a gallu'r Awdurdodau Rheoli Risg

Prosiect 7 – Archwiliad Sgiliau a Chapasiti a Rolau a Chyfrifoldebau

Maes Blaenoriaeth

Datblygu a chyflawni cynlluniau'n lleol ar gyfer cymunedau arfordirol a gweithredwyr y seilwaith

Prosiect 8 – Adolygu'r Grwpiau Arfordirol
Prosiect 9 – Ymaddasu Arfordirol
Prosiect 10 – Gwytnwch y Seilwaith

Hefyd, nododd Adroddiad Cam 2 Faes Blaenoriaeth arall sef 'Buddsoddiad parhaus i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol'. Mae hwn yn ofyniad craidd y rhoddwyd sylw iddo drwy Argymhelliad 27. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n barhaus i ddiogelu'r cyllidebau craidd ym maes perygl llifogydd rhag y pwysau ar wariant cyhoeddus ac mae'r gyllideb graidd ar gyfer llifogydd wedi cael ei chynnal ar gyfer 2015/16.

Mae'n hanfodol fod adnoddau'r Awdurdodau Rheoli Risg a phartneriaid eraill o amgylch Cymru yn cael eu harneisio ar gyfer y Prosiectau hyn a bod hyn yn cael ei wneud yn y fath fodd ag i ddefnyddio'r adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithlon. Amlinellir ffordd bosibl o weithio er mwyn gwireddu hyn.

Caiff strwythur llywodraethu ei sefydlu i fonitro a chyfarwyddo hynt y Cynllun Cyflawni hwn. Bydd angen i'r strwythur llywodraethu fod yn briodol a chymesur a dylai geisio defnyddio trefniadau sy'n bodoli'n barod lle mae hynny'n bosibl.



Llanilltud Faerdref, Bro Morgannwg (Ionawr 2014)



Amroth, Sir Benfro (Ionawr 2014)

Cynnwys

Cynnwys	12
Tarddiad a Diben y Cynllun Cyflawni hwn.....	13
Tarddiad y Cynllun Cyflawni hwn	13
Argymhellion – Statws Cymeradwyo a Chynnydd.....	14
Diben y Cynllun Cyflawni hwn	17
Cyflawni'r Argymhellion – Y Ffordd Ymlaen.....	19
Math o Argymhelliad.....	19
Argymhellion o'r Math Gorchwyl a Gorffen.....	19
Argymhellion o'r Math Gwelliant Parhaus.....	21
Blaenoriaethu	22
Y Cynllun Cyflawni	23
Monitro a Llywodraethu	30
Gwybodaeth Ategol.....	30

Gwybodaeth Ategol

Atodiad A – Creu'r Cynllun Cyflawni.

Atodiad B – Argymhellion – Statws Cymeradwyo a Chynnydd.

Atodiad C – Y Cefndir i'r Cynllun Cyflawni.

Atodiad D – Strategaeth Genedlaethol ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Atodiad E – Crynodeb o'r Argymhellion Unigol.

Tarddiad a Diben y Cynllun Cyflawni hwn

Tarddiad y Cynllun Cyflawni hwn

Mae'r Cynllun Cyflawni hwn yn ategu ac yn ychwanegol at y ddwy ddogfen sydd wedi'u cyhoeddi'n barod yn sgil y llifogydd ar hyd yr arfordir yn Rhagfyr 2013 ac Ionawr 2014:

- *Adolygiad o Lifogydd Arfordirol Cymru, Adroddiad Cam 1 – Asesiad o'r Effeithiau* ('Adroddiad Cam 1'), a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar 31^{ain} Ionawr 2014 ac a gyhoeddwyd ar 14^{eg} Chwefror 2014.
- *Adolygiad o Lifogydd Arfordirol Cymru, Adroddiad Cam 2* ('Adroddiad Cam 2') a gyhoeddwyd ar 30^{ain} Ebrill 2014.

Mae'r Cynllun Cyflawni hwn yn cyflawni Argymhellion 1 a 2 yn Adroddiad Cam 2.

Mae Argymhelliad 1 o Adroddiad Cam 2 yn amlinellu'r gofyniad am Gynllun Cyflawni i fwrw ymlaen â'r 47 argymhelliad (Argymhellion Cam 2):

'Argymhelliad 1: Bod Argymhellion Adroddiad Cam 2 yn cael eu crynhoi mewn Cynllun Cyflawni. Bydd y Cynllun Cyflawni yn nodi sut y bwrir ymlaen â'r argymhellion. Bydd yn ystyried materion megis: pa bartïon fydd yn rhan o'r gwaith, y prif gyfrifoldeb, blaenoriaethau, llywodraethu a'r gallu i gyflawni.'

Mae Argymhelliad 2 yn amlinellu'r gofyniad i Gynllun Cyflawni ystyried y cysylltiad â pheryglon llifogydd o ffynonellau ar wahân i'r arfordir:

'Argymhelliad 2: Dylai'r Cynllun Cyflawni ystyried cyfleoedd i ehangu'r argymhellion y tu hwnt i beryglon llifogydd ac erydu arfordirol yn unig ac ystyried y cysylltiad â pheryglon llifogydd o ffynonellau eraill.'

Mae'r Cynllun Cyflawni hwn yn ystyried:

- Sut caiff yr Argymhellion eu symud ymlaen (dull gweithredu/methodoleg)
- Gan bwy (pa sefydliadau a phartneriaid y mae angen eu cynnwys)
- I gyflawni beth (yn gyffredinol un ai welliant parhaus neu ganlyniad penodol)
- Amserlenni dangosol.

Caiff y gofynion uchod eu hystyried yng nghyd-destun cyffredinol adnoddau cenedlaethol, capasiti a'r angen i flaenoriaethu.

Mae'r prif weithgareddau a chamau er creu'r Cynllun Cyflawni wedi'u hamlinellu yn Atodiad A.

Argymhellion – Statws Cymeradwyo a Chynnydd

Yng Ngorffennaf 2014, cynhyrchodd John Griffiths, y Gweinidog Adnoddau Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon, ddatganiad ysgrifenedig mewn ymateb i'r 47 Argymhelliad a wnaed yn Adroddiad Cam 2 (Atodiad B). Derbyniai'r datganiad 42 o'r 47 Argymhelliad yn llwyr a derbyniai'r 5 arall mewn egwyddor.

O'r 47 Argymhelliad Cam 2:

- mae 5 eisoes wedi'u cyflawni
- mae 35 ar waith (a gwnaed cynnydd sylweddol ers y gaeaf diwethaf)
- ni chychwynwyd eto ar 7

Gweithgaredd y rhoddwyd blaenoriaeth iddo gan Lywodraeth Cymru a phob un o'r Awdurdodau Rheoli Risg arfordirol oedd atgyweirio, ailosod ac adfer lleoliadau a oedd wedi'u difrodi gan stormydd y gaeaf diwethaf. Mae llawer o weithgarwch a buddsoddi wedi digwydd o amgylch yr arfordir. Ers stormydd gaeaf 2013/14 mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio ar draws adrannau i ddarparu dros £10miliwn i Awdurdodau Lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud gwaith atgyweirio ac i ailsefydlu gallu cymunedau arfordirol ar draws y wlad i wrthsefyll llifogydd.

Yn ychwanegol at y flaenoriaeth a roddwyd i atgyweirio ac adfer amddiffynfeydd arfordirol, mae cynnydd nodedig wedi cael ei wneud hefyd ar draws yr Argymhellion. Mae hyn yn golygu bod cymunedau'n fwy abl i wrthsefyll llifogydd arfordirol. Mae'r gwaith yn cynnwys:

- Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio i ddiogelu'r cyllidebau craidd ym maes perygl llifogydd rhag y pwysau ar wariant cyhoeddus ac mae'r gyllideb graidd ar gyfer llifogydd wedi cael ei chynnal ar gyfer 2015/16.
- Yn y Rhyl mae waliau concrit wedi'u rhag-gastio a fflodiardau dur wedi cael eu gosod yn lle logiau stopio ar agoriadau grisiau, a chwblhawyd arolwg topograffig o Gwrs Golf y Rhyl. Mae gwaith yn mynd rhagddo i werthuso opsiynau tymor hwy.
- Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae tri Chynllun Rheoli Traethlin wedi cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru (De Cymru, Gorllewin Cymru ac Aber Afon Hafren).
- Ailfrandio'r gwasanaeth rhybuddion llifogydd yng Nghymru, fel ei bod yn glir mai Cyfoeth Cymru yw'r darparwr.
- Mae gwaith parhaus ar Raglen Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru wedi gweld mwy o aelodau'r cyhoedd sy'n wynebu risg yn cofrestru gyda'r Gwasanaeth Uniongyrchol Rhybuddion Llifogydd rhwng 1af Mai a 30ain Medi 2014.
- Mae gwaith i ddatblygu cynlluniau llifogydd yn parhau drwy Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru.
- Mae bwi parhaol sy'n hwylio'r tonnau wedi cael ei ddefnyddio oddi ar arfordir Gorllewin Sir Benfro i helpu i wella'r rhagolygon llifogydd.
- Gwelliannau'r i'r Rhagolygon Llifogydd, gyda rhagolygon 5 diwrnod ar gael erbyn hyn i swyddogion lleol Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Mae Bwrdd Prosiect Amlasiantaeth Fairbourne a'r Grwpiau Gorchwyl a Gorffen cysylltiol wedi parhau i wneud cynnydd o ran canfod gwersi gwerthfawr i'w cymhwyso'n ehangach.
- Mae gwaith paratoadol ar y gweill ar gyfer Ymarferiad Megacyma Cymru ym Mawrth 2015.
- Cwblhawyd a chyhoeddwyd yr asesiad o newid amgylcheddol a achoswyd yn ystod stormydd Rhagfyr 2013 ac Ionawr 2014 (Duigan C, Rimington N a Howe M (Eds) 2014. *Welsh Coastal Storms, December 2013 & January 2014 – an assessment of environmental change*, Adroddiad Tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru).
- Mae gwaith yn parhau i nodi a gwerthuso opsiynau gwella mewn llawer o fannau ar hyd yr arfordir a wnaeth un ai ddioddef llifogydd neu ddod yn agos at gael llifogydd yn ystod stormydd gaeaf y llynedd.
- Gwnaed ymchwil gan raglen genedlaethol Ymchwil a Datblygu Sciencewise i'r ffordd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cyfleu negeseuon llifogydd i'r cyhoedd.
- Ymwneud parhaus â'r rhaglen Ymchwil a Datblygu ar y cyd rhwng Cymru a Lloegr ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, yn gweithio gyda phartneriaid o'r Deyrnas Unedig.

Ceir rhagor o wybodaeth am statws cyffredinol pob un o'r Argymhellion a'r cynnydd a wnaed arnynt (adeg ysgrifennu'r adroddiad) yn Atodiad B.

Diben y Cynllun Cyflawni hwn

Mae'r Cynllun Cyflawni hwn yn dod â holl Argymhellion Cam 2 ynghyd er mwyn eu hystyried gyda'i gilydd, yn hytrach nag fesul un. Mae hyn yn help i ymdrin yn strategol â chynllunio, blaenoriaethu, rhaglennu a chyflawni'r Argymhellion unigol.

Yn Atodiad C ceir rhagor o wybodaeth gefndir am y Cynllun Cyflawni hwn, yn cynnwys dolenni at y cyhoeddiadau perthnasol a Datganiadau'r Gweinidogion.

Strategaeth Llywodraeth Cymru, '*Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (Tachwedd 2011)*', sy'n darparu'r fframwaith strategol troswaol. Mae gwybodaeth bellach wedi'i chynnwys yn Atodiad D, sydd hefyd yn cynnwys rhestr o Awdurdodau Rheoli Risg Cymru.

Bydd y Cynllun Cyflawni hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Rheoli Risg Cymru i weithio'n fwy effeithiol ac effeithlon gyda'i gilydd, gyda mwy o eglurdeb ynglŷn â'r cyfeiriad teithio gorau, gan ddylanwadu ar benderfyniadau ynglŷn â blaenoriaethau a chanlyniadau. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn y cyfnod hwn o gygni economaidd a her ariannol.

Yn Atodiad C, Ychwanegiad 1, ceir rhestr o Argymhellion Cam 2, a gymerwyd o Adroddiad Cam 2, ac maent wedi'u cynnwys yma er hwylustod cyfeirio. Mae'r 47 Argymhelliad yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau rheoli perygl llifogydd. Mae'r Argymhellion hyn yn cynnwys gweithgareddau y mae modd eu cwblhau a'u cyflawni'n weddol gyflym, yn ogystal ag eraill, fel yr angen i ymaddasu i risg gynyddol, a fydd yn digwydd dros amserlen lawer hirach.

Daw Adroddiad Cam 1 i'r casgliad, er bod effeithiau'r stormydd arfordirol ar y rhai yr effeithiwyd yn uniongyrchol arnynt yn ddifrifol iawn ac yn achosi loes, a bod y difrod a achoswyd a'r costau atgyweirio cysylltiol yn sylweddol, y gallai'r sefyllfa a wynebwyd fod wedi bod gryn lawer yn waeth oni bai am y buddsoddi yn rhwydwaith amddiffynfeydd arfordirol Cymru a'r cynnal a chadw arno dros flynyddoedd lawer.

O ddadansoddi'r data gwelwyd y gallai mwy na 24,000 eiddo fod wedi dioddef llifogydd ar hyd arfordir y Gogledd yn ystod storm Rhagfyr 2013 a mwy na 50,000 eiddo o amgylch Cymru yn ystod stormydd mis Ionawr. Mae hyn yn dangos bod costau ariannol y 'difrod a gafodd ei osgoi' oddeutu **£960miliwn a £2biliwn** y naill a'r llall. Dangosai dadansoddiad tebyg o ran tir amaethyddol y gallai oddeutu **34,000ha o dir amaethyddol** fod wedi dioddef llifogydd yn ystod stormydd Ionawr 2014, pe na bai am y rhwydwaith cenedlaethol o seilwaith amddiffyn yr arfordir.

Hefyd, dros y blynyddoedd diwethaf, mae cryn lawer o amser ac arian wedi cael eu buddsoddi yn gwella'n prosesau rhagolygon a rhybuddio, yn meithrin a phrofi perthynas â phartneriaid proffesiynol ac yn cynyddu ymwybyddiaeth o lifogydd a'r gallu i'w gwrthsefyll.

Dangosodd Adroddiad Cam 1 hefyd fod y rhagolygon newid hinsawdd yn awgrymu y dylem ddisgwyl stormydd amlach a mwy difrifol, ynghyd â chodiad yn lefel y môr, yn y dyfodol. Ni fydd yn ddichonadwy nac yn fforddiadwy parhau i amddiffyn arfordir Cymru ar ei hyd yn erbyn y pwysau hyn yn y dyfodol. Mae angen cynyddol felly i Awdurdodau Rheoli Risg a phartïon yr effeithir arnynt weithio gyda'i gilydd i reoli a lliniaru'r risgiau rhagamcanol cynyddol.

Mae'r Cynllun Cyflawni felly yn ceisio hyrwyddo cydweithio er mwyn dyfeisio ffyrdd ymarferol o frw iddi i reoli'r risg i arfordir Cymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae'r gwasanaeth cyfredol i reoli perygl llifogydd yng Nghymru yn amlweddog ac mae rhannau ohono'n gymhleth. Er i'r Awdurdodau Rheoli Risg drwyddynt draw berfformio'n dda yn ystod stormydd gaeaf 2013/14, mae sialensiau a chyfleoedd ar draws pob agwedd o'r gwasanaeth ac mae angen ymateb cyfunol, a hynny dros gyfnod o amser, i alluogi Cymru i fedru gwrthsefyll llifogydd arfordirol yn well. Nid oes ateb syml na chyflym. Mae'r sialensiau a'r chyfleoedd hyn yn cael eu hadlewyrchu yng nghwmpas a graddfa'r 47 Argymhelliad yn Adroddiad Cam 2.

Mae Argymhellion Cam 2 yn adlewyrchiad cadarnhaol o uchelgais a dyhead Llywodraeth Cymru a'r partneriaid rheoli risg arfordirol yng Nghymru. Maent yn nodi fframwaith cyffredin o weithgareddau ymarferol a fydd, dros amser, yn gwneud cymunedau y mae perygl iddynt wynebu llifogydd arfordirol a/neu erydu arfordirol yn gryfach i wrthsefyll hynny.

Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r Cynllun Cyflawni hwn a manylir ymhellach ar sut y cafodd y Cynllun ei ddatblygu yn Atodiad A. Ceir crynodeb o'r methodolegau arfaethedig er mwyn mynd i'r afael â phob Argymhelliad unigol yn Atodiad E.

Cyflawni'r Argymhellion – Y Ffordd Ymlaen

Math o Argymhelliad

Gellir rhannu'r 47 Argymhelliad Cam 2 yn fras i ddau fath:

- Gweithgareddau '*Gorchwyl a Gorffen*' am gyfnod penodedig, fel arfer i nodi a gwerthuso opsiynau er mwyn gwella'r ffyrdd o weithio yn y dyfodol (35 o'r 47 Argymhelliad).
- '*Gwelliant Parhaus*' drwy esblygiad y tasgau gweithredol arferol sy'n cael eu cyflawni gan Awdurdodau Rheoli Risg (12 o'r 47 Argymhelliad).

Mae'r dosbarthiad yn ôl math o Argymhelliad wedi'i gynnwys yn Nhabl 1.

Argymhellion o'r Math Gorchwyl a Gorffen

O'r 35 Argymhelliad o'r math *Gorchwyl a Gorffen*, mae 5 wedi'u cwblhau erbyn hyn ac mae 11 yn annhebygol o elwa'n sylweddol o adnoddau ychwanegol gan fod ffactorau eraill yn cyfyngu arnynt. Er enghraifft, mae Argymhellion 3 a 4 yn gysylltiedig â'r rhaglen Ymchwil a Datblygu ar y cyd i Gymru a Lloegr ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol ac mae Argymhelliad 40 yn disgwyl am benderfyniad.

Byddai'r 19 Argymhelliad arall yn elwa o dargedu adnoddau atynt fel bod modd eu cyflawni mewn ffordd effeithiol ac amserol. Mae natur Gorchwyl a Gorffen yr Argymhellion hyn yn golygu y byddai gweithredu drwy ddulliau prosiect yn gweddu iddynt.

Credir mai'r opsiwn mwyaf effeithlon ac effeithiol er mwyn symud ymlaen yw pecynnu'r 19 Argymhelliad hyn fel sy'n briodol yn gyfres o 10 Prosiect. Byddai'r pecynnu ar sail materion technegol tebyg. Bydd angen nifer o Reolwyr Prosiect dros dro i gyflawni'r prosiectau hyn. Byddai'r prosiectau hyn gyda'i gilydd yn cael eu cyd-drefnu gan Reolwr Rhaglen yn Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n hanfodol fod yr Awdurdodau Rheoli Risg ac adnoddau partneriaid eraill o bob rhan o Gymru yn cael eu harneisio ar gyfer y prosiectau hyn a bod hynny'n cael ei wneud mor effeithlon â phosibl.

Awgrymir y gellir cyflawni hyn drwy:

- Ddefnyddio Rheolwr Prosiect 'technegol' sy'n brofiadol yn agweddau technegol yr Argymhellion ac a fydd felly'n gallu ychwanegu gwerthu a lleihau'r effaith ar bartneriaid o safbwynt adnoddau.
- Pecynnu Argymhellion unigol yn Brosiectau ehangach.
- Cynllunio'r ymgysylltu â phartneriaid er mwyn effeithio cyn lleied â phosibl ar eu hadnoddau a'u hamser. Gellid defnyddio un ai gyfarfodydd wyneb yn wyneb neu drefniant gweithdy i gasglu mewnbwn yn y ffordd fwyaf effeithiol.

- Cyfuno Prosiectau, gwaith casglu data a gweithdai lle mae'n briodol gwneud hynny.
- Rheolwr Prosiect Technegol yn arwain yn glir ar werthuso syniadau a datblygu canlyniadau drafft o safon uchel i gael eu hystyried gan y partneriaid.
- Dosbarthu canlyniadau drafft i'r partneriaid iddynt gynnig sylwadau a chyfrannu.
- Y Rheolwyr Prosiect Technegol yn pennu gwedd derfynol y canlyniadau Prosiect.
- Ystyried lefel y gefnogaeth a'r ymrwymiad sy'n ofynnol gan bob partner sy'n cyfrannu fesul achos unigol yn ôl y gofyn ac ymgorffori hynny yn y Prosiectau unigol.

Bydd y partneriaid cyflawni'n cytuno rhyngddynt ar yr adnoddau ar ffurf Rheolwr Prosiect technegol. Disgwylir i'r Rheolwyr Prosiect gael eu dewis o Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Rheoli Risg a/neu gyflenwyr gwasanaethau arbenigol.

Argymhellion o'r Math Gwelliant Parhaus

O'r 12 Argymhelliad o'r math Gwelliant Parhaus, mae 3 yn annhebygol o elwa'n sylweddol o adnoddau ychwanegol gan fod ffactorau eraill yn cyfyngu arnynt. Er enghraifft, nid yw Argymhellion 27, 28 a 30 sy'n ymwneud â materion ariannu yn ddibynnol ar adnoddau (pobl).

Byddai'r 9 Argymhelliad arall yn elwa o adnoddau ychwanegol er mwyn rhoi mwy o ffocws ar y meysydd gwaith hyn. Byddai hyn yn cynnwys defnyddio adnodd ychwanegol parhaol neu dros dro, yn ogystal ag ailflaenoriaethu adnoddau a gweithgareddau presennol.

Gellir ymgorffori elfennau o lawer o'r Argymhellion yn y Prosiectau Gorchwyl a Gorffen ehangach a'r Pecynnau Prosiect, felly bydd modd ystyried cwestiynau ynglŷn ag adnoddau ychwanegol ac ailflaenoriaethu yn y cyd-destun ehangach.

Blaenoriaethu

Mae cyflawni pob un o'r 47 Argymhelliad yn gryn lawer o waith a bydd angen rheoli a blaenoriaethu hynny o fewn yr adnoddau ariannol sydd ar gael a chan ddefnyddio'r arbenigedd a'r capasiti cyfun ar draws Awdurdodau Rheoli Risg Cymru yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol.

Gallai hyn gynnwys defnyddio adnodd ychwanegol parhaol neu dros dro, yn ogystal ag ailflaenoriaethu adnoddau a gweithgareddau presennol. Bydd rhyddhau adnoddau drwy ailflaenoriaethu gwaith yn effeithio'n anochel ar flaenoriaethau eraill, a bydd rhaid i'r rheini stopio neu arafu.

Mae'r penderfyniadau blaenoriaethu o ran pa Argymhellion a Phrosiectau cysylltiol i fwrw ymlaen â nhw'n gyntaf wedi cael eu gwneud gan ystyried adborth o'r gweithdy gyda phartneriaid yn yr Awdurdodau Rheoli Risg (gweler Atodiad A) ac adborth ar y Cynllun Cyflawni yn ei ffurf ddrafft (eto, gweler Atodiad A). Dangosai'r adborth hwn mai'r 5 Argymhelliad isod yw'r flaenoriaeth uchaf ar draws yr holl bartneriaid yn yr Awdurdodau Rheoli Risg:

Argymhelliad 27: Ariannu parhaus

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n barhaus i ddiogelu cyllidebau ac mae'r gyllideb graidd ar gyfer llifogydd wedi cael ei chynnal ar gyfer 2015/16. Dylai cyhoeddiad am arian arfordirol ychwanegol a ddisgwylir erbyn diwedd 2014 weld cynnydd sylweddol yn y buddsoddi i reoli'r risg o lifogydd ac erydu arfordirol.

Argymhelliad 11: Gwelliannau i'r ardaloedd rhybuddion llifogydd a'r trothwyon rhybuddio

Y flaenoriaeth yn cael ei hadlewyrchu yn yr amserlen yn Nhabl 1.

Argymhelliad 1: Datblygu Cynllun Cyflawni i nodi sut y bwrir ymlaen â'r Argymhellion

Yr Argymhelliad yn cael ei gyflawni gan y Cynllun Cyflawni hwn.

Argymhelliad 43: Gwella sut mae Awdurdodau Rheoli Risg a darparwyr seilwaith a chyfleustodau yn gweithio gyda'i gilydd

Y flaenoriaeth yn cael ei hadlewyrchu yn yr amserlen yn Nhabl 1.

Argymhelliad 38: Egluro rolau a chyfrifoldebau ymysg Awdurdodau Rheoli Risg

Y flaenoriaeth yn cael ei hadlewyrchu yn yr amserlen yn Nhabl 1.

Dylanwadir ar y blaenoriaethau hefyd gan:

- Ddyletswyddau statudol yr Awdurdodau Rheoli Risg.
- Pa mor gymhleth neu hawdd yw hi i gyflawni'r Argymhelliaid.
- Y budd cyffredinol posibl i bobl a chymunedau Cymru. Mae buddion eang, sy'n para'n hir, yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth uwch ac yn bwysicach.
- Argymhellion yn dibynnu y naill ar y llall.
- Y 6 Maes Blaenoriaeth a nodwyd yn Adroddiad Adolygiad Cam 2 (gweler isod).
- Yr adnodd sy'n ofynnol ar ffurf pobl i gwblhau'r Argymhellion. Mae angen sgiliau technegol tebyg ar rai Argymhellion tra mae angen sgiliau ac arbenigedd gwahanol ar eraill. Mae hyn yn golygu bod modd ystyried pecynnu neu ohirio lle mae angen sgiliau tebyg a gweithio'n gyfochrog lle mae'r setiau sgiliau yn wahanol. Er enghraifft, mae'r sgiliau rheoli asedau ar gyfer Argymhelliaid 31 yn wahanol i'r sgiliau cydnerthu cymunedau i symud Argymhellion 13 i 17 ymlaen.

Mae'r ffactorau hyn i gyd wedi cael eu hystyried wrth bennu'r amserlenni dangosol yn Nhabl 1.

Y Cynllun Cyflawni

Yn Nhabl 1 ceir rhestr o'r 47 Argymhelliaid Cam 2, a nodir:

- Y cysylltiadau rhwng Argymhellion ('Cyswllt â'), lle maent yn arwyddocaol, a allai effeithio ar sut y bwirir ymlaen â nhw
- Y Math o Argymhelliaid, un ai Gorchwyl a Gorffen (G&G) neu Welliant Parhaus (GP).
- Y Ffordd Ymlaen a Phecynnau Prosiect, lle mae modd pecynnu'r Argymhellion unigol yn nifer o Brosiectau ar sail eu thema dechnegol.
- Amserlenni dangosol; wrth i'r prosiectau ddatblygu caiff y rhain eu hailwerthuso ac efallai yr ailasesir y blaenoriaethau mewn ymateb i unrhyw lifogydd yn y dyfodol.

Mae Tabl 1 yn disgrifio fel y mae'r Argymhellion wedi'u pecynnu'n 10 Prosiect. Mae'r Prosiectau hyn a'u themâu technegol bras wedi'u rhestru isod:

Prosiect 1 – Rhagolygon Llifogydd a Dylunio Arfordirol

Prosiect 2 – Rhybuddion a Rhagolygon Llifogydd

Prosiect 3 – Cydnerthu Cymunedau

Prosiect 4 – Ymateb Gweithredol

Prosiect 5 – Amddiffynfeydd Arfordirol

Prosiect 6 – Set Ddata Genedlaethol Amddiffynfeydd Arfordirol ac Archwiliadau

Prosiect 7 – Archwiliad Sgiliau a Chapasiti a Rolau a Chyfrifoldebau

Prosiect 8 – Adolygu'r Grwpiau Arfordirol
Prosiect 9 – Ymaddasu Arfordirol
Prosiect 10 – Gwytnwch y Seilwaith

Nododd Adroddiad Cam 2 6 Maes Blaenoriaeth lle gellir gwneud gwelliannau er mwyn darparu gwasanaeth rheoli llifogydd ac erydu arfordirol gwytnach. Bydd y 10 Prosiect arfaethedig yn cyfrannu'n sylweddol at y Meysydd Blaenoriaeth isod fel sy'n cael ei ddangos isod:

Maes Blaenoriaeth

Mwy o gymorth i gymunedau i'w helpu i ddod yn fwy hunangynhaliol a chydnerth

Prosiect 1 – Rhagolygon Llifogydd a Dylunio Arfordirol
Prosiect 2 – Rhybuddion a Rhagolygon Llifogydd
Prosiect 3 – Cydnerthu Cymunedau
Prosiect 4 – Ymateb Gweithredol

Maes Blaenoriaeth

Gwell gwybodaeth am amddiffynfeydd rhag llifogydd arfordirol a systemau i reoli erydu

Prosiect 5 – Amddiffynfeydd Arfordirol
Prosiect 6 – Set Ddata Genedlaethol Amddiffynfeydd Arfordirol ac Archwiliadau

Meysydd Blaenoriaeth

Mwy o eglurdeb am rolau a chyfrifoldebau, ac asesu sgiliau a gallu'r Awdurdodau Rheoli Risg

Prosiect 7 – Archwiliad Sgiliau a Chapasiti a Rolau a Chyfrifoldebau

Maes Blaenoriaeth

Datblygu a chyflawni cynlluniau'n lleol ar gyfer cymunedau arfordirol a gweithredwyr y seilwaith

Prosiect 8 – Adolygu'r Grwpiau Arfordirol
Prosiect 9 – Ymaddasu Arfordirol
Prosiect 10 – Gwytnwch y Seilwaith

Hefyd, nododd Adroddiad Cam 2 Faes Blaenoriaeth arall sef ‘Buddsoddiad parhaus i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol’. Mae hwn yn ofyniad craidd y rhoddwyd sylw iddo drwy Argymhelliad 27 a thynnwyd sylw ato fel blaenoriaeth allweddol gan y rhai a oedd yn y gweithdy. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio i ddiogelu’r cyllidebau craidd ym maes perygl llifogydd rhag y pwysau ar wariant cyhoeddus ac mae’r gyllideb graidd ar gyfer llifogydd wedi cael ei chynnal ar gyfer 2015/16.

Allwedd i Dabl 1: Dosbarthiad Statws Cynnydd yr Argymhellion ac effaith adnodd ychwanegol ar gyflawni

STATWS CYNNYDD AC EFFAITH ADNODD YCHWANEGOL	
5	Argymhelliad wedi’i gwblhau neu’i ymgorffori ym mhroses y Cynllun Cyflawni
14	Argymhelliad ar waith – ni fyddai adnodd ychwanegol ^{Nodyn 1} yn cyflymu na gwella’r cyflawni yn arwyddocaol
21	Argymhelliad ar waith – byddai adnodd ychwanegol ^{Nodyn 1} yn cyflymu neu’n gwella’r cyflawni yn arwyddocaol
7	Argymhelliad ddim ar waith ar hyn o bryd – angen adnodd ychwanegol i’w gyflawni
47	<i>Cyfanswm</i>

Nodyn 1: Yn realistig mae Adnodd Ychwanegol ar yr Argymhellion unigol hyn yn fwyaf tebygol o gael ei greu drwy ailflaenoriaethu adnoddau presennol, un ai pobl, arian neu’r naill a’r llall.

Tabl 1: Crynodeb o'r Ffordd Ymlaen a Phecynnau Prosiect

Arg	Cyswllt â	Math o Arg	Y Ffordd Ymlaen Pecynnau Prosiect	Arweinydd Cyflawni	Erbyn Pryd	
1	2	G&G	Dim Gweithredu – Argymhelliad wedi'i gwblhau	CNC	Rhag 2014	
2	1	G&G	Dim Gweithredu – Argymhelliad wedi'i gwblhau	CNC	Rhag 2014	
3		G&G	Prosiect 1 – Rhagolygon Llifogydd a Dylunio Arfordirol - Cyswllt â phrosiectau Ymchwil a Datblygu sydd ar waith - Ystyried opsiynau o ran adnodd ychwanegol a/neu ailflaenoriaethu i gyflwyno adnodd ychwanegol - Cynhyrchu adroddiad gwerthuso opsiynau	CNC	Ar waith ac ynghlwm wrth gynydd y gyd-Raglen Ymchwil a Datblygu	
4		G&G		CNC		
5		G&G		CNC		
6		GP		CNC		
7		G&G		CNC	Haf 2015	
8		GP		CNC		
9		G&G		Dim Gweithredu – Argymhelliad wedi'i gwblhau	CNC	Ddim yn berth.
10		G&G		Dim Gweithredu – Argymhelliad wedi'i gwblhau	CNC	Ddim yn berth.
11	12	GP	Prosiect 2 – Rhybuddion a Rhagolygon Llifogydd - Ystyried opsiynau o ran adnodd ychwanegol a/neu ailflaenoriaethu i gyflwyno adnodd ychwanegol - Cynhyrchu adroddiad gwerthuso opsiynau	CNC	Hydref 2015	
12	11	G&G		CNC		
13		GP	Prosiect 3 – Cydnerthu Cymunedau	CNC	Gaeaf 2015	
14		G&G				

15		G&G	- Ystyried opsiynau o ran adnodd ychwanegol a/neu ailflaenoriaethu i gyflwyno adnodd ychwanegol - Cynhyrchu adroddiad gwerthuso opsiynau		
16	17	G&G			
17	16	G&G			
18		G&G	Prosiect 4 – Ymateb Gweithredol - Ystyried opsiynau o ran adnodd ychwanegol a/neu ailflaenoriaethu i gyflwyno adnodd ychwanegol - Cynhyrchu adroddiad gwerthuso opsiynau	CNC	Gaeaf 2015
19		GP			
20		G&G			
21	22	G&G	Ymarferiad symud nifer fawr o bobl o'r arfordir wedi'i gynllunio ar gyfer Mawrth 2015 - Gwaith cynllunio a pharatoi'r ymarferiad yn mynd rhagddo - Bydd ymarferiad Mawrth 2015 yn dylanwadu ar Arg 21 yn ogystal ag Argymhellion 37 a 38	FfLICG	Ar ôl Gwanwyn 2015
22	21	G&G		Grŵp Llifogydd Cymru	Gwanwyn 2015
23		G&G	Bydd yr ymarferiad arfordirol uchod yn dylanwadu ar yr argymhelliad	FfLICG	Ar ôl Gwanwyn 2015
24		G&G	Argymhelliad penodol i ardal Garford Road yn y Rhyl - Gwaith tymor byr wedi'i wneud i leihau'r perygl llifogydd - Opsiynau tymor hwy yn dibynnu ar gwblhau gwaith arfarnu opsiynau	Cyngor Sir Ddinbych	Ar waith ac yn dibynnu ar gwblhau gwaith arfarnu opsiynau
25	31	G&G	Prosiect 5 – Amddiffynfeydd Arfordirol - Cynhyrchu adroddiad gwerthuso opsiynau	CLILC	Gaeaf 2015
26	31	G&G			
27		GP	Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n barhaus i ddiogelu cyllidebau ac mae'r gyllideb graidd ar gyfer llifogydd wedi cael ei chynnal ar gyfer 2015/16. Cwblhau ymgynghoriad y Rhaglen Fuddsoddi – Llifogydd a'r Arfordir a gweithredu'r rhaglen i ddarparu methodoleg ar gyfer blaenoriaethu'r cyllid.	LIC	Ar waith
28		GP			Ar waith

29		G&G	Cynnal ymgynghoriad y Rhaglen Fuddsoddi Genedlaethol, sydd bellach yn cael ei galw'n Rhaglen Fuddsoddi – Llifogydd a'r Arfordir, ddiwedd 2014.	LIC	Diwedd 2014
30		GP	Dros y misoedd nesaf bydd gwaith yn parhau gyda phartneriaid cyflawni mewn Awdurdodau Lleol i ystyried yr achos o blaid rhaglen amddiffynfeydd rhag llifogydd arfordirol wedi'u hariannu'n arloesol. Disgwylir cyhoeddiadau pellach am y cynllun hwn yn ddiweddarach yn 2014.	LIC	Gwanwyn 2015
31	25,26,32, 40, 35	G&G	Prosiect 6 – Set Ddata Genedlaethol Amddiffynfeydd Arfordirol ac Archwiliadau	CNC	Gaeaf 2015
32	31	G&G	- Cynhyrchu adroddiad gwerthuso opsiynau - Argymhelliad 32 wedi'i ymgorffori yn Argymhelliad 31ac yn ddibynnol arno		
33		GP	Cynhyrchu Strategaeth Modelu a Mapio Perygl Llifogydd/Cynllun gwaith i Gymru	CNC	Gwanwyn 2016
34		G&G	Mae adolygiad ar sail risg o leoliadau lle cafwyd llifogydd ar waith gan yr Awdurdodau Rheoli Risg a bydd cyflawni gwaith gwella mewn lleoliadau unigol yn dibynnu ar arfarniad opsiynau unigol a blaenoriaethau cenedlaethol.	ARhR Unigol	Yn amrywio yn ôl lleoliad
35	31, 40	G&G	Mae adolygiad ar sail risg o leoliadau 'cael a chael' ar waith gan yr Awdurdodau Rheoli Risg a bydd cyflawni gwaith gwella mewn lleoliadau unigol yn dibynnu ar arfarniad opsiynau unigol a blaenoriaethau cenedlaethol.	ARhR Unigol	Yn amrywio yn ôl lleoliad
36		G&G	Dim gweithredu – Argymhelliad wedi'i gwblhau ond mae angen gwaith eto i integreiddio'r canfyddiadau i'r Argymhellion y mae'r Cynllun Cyflawni hwn yn ymdrin â nhw.	CNC	Ynglwm wrth Argymhellion unigol eraill
37	38	G&G	Prosiect 7 - Archwiliad Sgiliau a Chapasiti a Rolau a Chyfrifoldebau	CLILC	Gaeaf 2015 (Arg. 37)
38	37	G&G	- Cynhyrchu adroddiad gwerthuso opsiynau i roi sylw i'r bwch sgiliau a chapasiti cenedlaethol - Egluro rolau a chyfrifoldebau	CNC	Haf 2015 (Arg. 38)
39		G&G	Prosiect 8 – Adolygu'r Grwpiau Arfordirol	LIC	Erbyn Gaeaf 2015

				- Cynhyrchu adroddiad gwerthuso opsiynau		
40	31, 35		G&G	Penderfynu ar Achos Busnes Canolfan Monitro Arfordirol Cymru	LIC	Gwanwyn 2015
41	39		GP	Prosiect 9 – Ymaddasu Arfordirol - Sefydlu strwythur llywodraethu trosfwaol i hwyluso a chynorthwyo'r cyflawni. Ystyried rôl Grwpiau Arfordirol Cymru a Fforwm Arfordirol Cymru yn y dyfodol.	LIC ac Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol	Tymor hir – ar waith
42			G&G	- Cymeradwyaeth ffurfiol i SMP2 ar y gweill – Llywodraeth Cymru - Bwrdd Prosiect Amlasiantaethol Fairbourne a'r Grwpiau Gorchwyl a Gorffen dan arweiniad Cyngor Gwynedd sy'n gweithio gydag ef yn parhau i wneud cynnydd. - Datblygu pecyn offer i'w ddefnyddio'n ehangach. - Ystyried rhwystrau a bylchau rhag ymaddasu	LIC	Haf 2015
43			G&G	Prosiect 10 – Gwytnwch y Seilwaith	LIC	Gwanwyn 2015
44			G&G	- Rheolwr Prosiect i gyd-drefnu a hwyluso	LIC	Gwanwyn 2015
45	41		GP		LIC	Gwanwyn 2015
46	41		G&G		LIC	Ar waith
47	43 i 46		G&G		LIC	Ar waith

Tabl 1 Acronymau: CNC – Cyfoeth Naturiol Cymru, FfLICG – Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, CLILC – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, LIC – Llywodraeth Cymru, ARhR – Awdurdod Rheoli Risg, G&G – Gorchwyl a Gorffen, GP – Gwelliant Parhaus.

Monitro a Llywodraethu

Caiff strwythur llywodraethu ei sefydlu i fonitro a chyfarwyddo hynt y Cynllun Cyflawni hwn. Bydd angen i'r strwythur llywodraethu fod yn briodol a chymesur a dylai geisio defnyddio trefniadau sy'n bodoli'n barod lle mae hynny'n bosibl.

Caiff y trefniadau llywodraethu eu datblygu drwy drafodaeth bellach rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Gwybodaeth Ategol

Mae nifer o Atodiadau ar gael fel dogfen ar wahân, yn darparu gwybodaeth sy'n ategu'r Cynllun Cyflawni hwn. Bydd y rhain yn manylu ymhellach ar lawer o agweddau o'r Cynllun Cyflawni:

Atodiad A – Creu'r Cynllun Cyflawni

Atodiad B – Argymhellion – Statws Cymeradwyo a Chynnydd

Atodiad C – Y Cefndir i'r Cynllun Cyflawni

Atodiad D – Strategaeth Genedlaethol ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Atodiad E – Crynodeb o'r Argymhellion Unigol



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwe, 8am - 6pm)

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Caniateir atgynhychu'r ddogfen hon gyda chaniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru
ymlaen llaw